AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 229 Ebrill – Mai 2021

Synod Cymru

# Gwyliedydd



# O’R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



**Pasg Hapus**

“Haleliwia! Atgyfododd Crist! Atgyfododd yn wir! Haleliwia!” Dyna gyfarchiad traddodiadol y Pasg, a’r rheswm pam rwyf yn dymuno Pasg Hapus i chi! Mae Iesu wedi atgyfodi, ac mae’n dod â bywyd yn ei holl gyflawnder i bawb. Does dim angen ofni mwyach – mae cariad yn gryfach na chasineb, drygioni a dinistr. Fydd marwolaeth byth yn cael y gair olaf. Haleliwia!

Wrth feddwl yn ôl i 2020, yr Wythnos Fawr a Sul y Pasg y llynedd, sylweddolwn ein bod trwy ras Duw wedi ymdopi â llawer iawn, fel unigolion a chymunedau. Mae llawer wedi aberthu cymaint – amser, egni, gwybodaeth, gallu ac yn wir, eu hunain – i ofalu am bobl eraill, ac mae’r gost wedi bod yn uchel. Mae llawer wedi bod yn ddewr ofnadwy, yn greadigol tu hwnt ac yn eithriadol o amyneddgar mewn sefyllfaoedd na fuasai neb erioed wedi eu dychmygu. Mae rhai wedi talu pris na ddylai neb orfod ei dalu. Fydd neb ohonom yr un fath ar ôl bod trwy’r flwyddyn diwethaf yma. O ganlyniad, mae’r byd wedi newid. Os ydym yn ddoeth ac yn ffyddlon fel pobl Dduw, byddwn yn cydweithio â’r newid parhaol hwn er mwyn creu byd gwell.

**Y daith yn hir**

Bellach rydym yn dechrau meddwl ein bod ni’n gweld llygedyn o oleuni sy’n arwydd o ddiwedd y pandemig, efo’r rhaglen frechu a phobl yn dilyn y canllawiau i ddiogelu ein gilydd, ond dydym ni ddim wedi cyrraedd eto. Mae’r daith yn parhau, a diolch i Dduw am nerth ac am gyd-deithwyr. Fel mae pobl N’gambai Affrica yn dweud, “Os ydych chi am deithio’n gyflym, yna teithio ar eich pen eich hun. Os ydych chi am deithio’n bell, teithio efo’ch gilydd.” Diolch byth ein bod ni’n teithio efo Duw ac efo’n gilydd!

**Aros mewn ffydd**

Yng nghyd-destun y Pasg, mae fy meddyliau’n troi at ddydd Sadwrn y Pasg, rhwng Dydd Gwener y Groglith a dydd yr Atgyfodiad. Beth fyddwch chi’n tueddu i’w wneud ar ddydd Sadwrn y Pasg? Dim byd arbennig? Yn sicr, dydym ni ddim yn addoli neu’n gweddïo mewn ffordd arbennig fel y byddwn yn arfer ei wneud ar y diwrnodau cynt ac wedyn. Mae’r diwrnod rhwng y ddau yn teimlo’n aml i fi fel amser aros, adeg i droedio yn ein hunfan, diwrnod pan fyddwn yn disgwyl i rywbeth ddigwydd. Ond yn ôl hen draddodiad Cristnogol, mae’n ddydd Sadwrn Sanctaidd, pan “ddisgynnodd (Iesu) at y meirw,” yng ngeiriau Credo’r Apostolion, er mwyn rhyddhau pobl ffyddlon o’r cyfnodau a fu. Yn ôl yr athrawiaeth yma, yn hytrach na dim llawer, roedd rhywbeth allweddol yn hanes iachawdwriaeth y byd yn digwydd tra edrychai fel petai dim byd yn digwydd o gwbl. Siŵr o fod, roedd y diwrnod hwnnw’n llawn ofn, ansicrwydd, dryswch a chuddio ar gyfer disgyblion Iesu, ac efallai fod y profiad hwnnw yn teimlo’n gyfarwydd i ni. Yng nghyd-destun Covid-19, efallai ein bod yn wynebu ein Dydd Sadwrn Pasg ein hunain, yn aros heb wybod yn wir am beth rydym ni’n aros, ond yn credu, yn gwybod, ein bod ni’n aros am rywbeth? Un peth rydym yn ei wybod i sicrwydd, fel pobl y Pasg, pobl yr Iesu atgyfodedig, yw y bydd Sul y Pasg yn gwawrio. Bydd bywyd newydd yn dod i’r byd, diolch i Dduw.

**Cyfnod newydd**

Yng nghyd-destun dyfodol yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru, mae’n bosib dweud ein bod ni’n profi math o ddydd Sadwrn y Pasg. Mae’n amser trothwyol i ni. Erbyn i chi ddarllen y rhifyn yma o’r *Gwyliedydd*, bydd cyfarfod Synod Cymru wedi’i gynnal ar 27 Mawrth. Bydd y Synod wedi ystyried dogfen ‘Cynnig amlinellol’ ar gyfer sefydlu Synod newydd yng Nghymru o fis Medi 2022 ymlaen, ynghyd â chylchdeithiau presennol Wales Synod, gyda’r enw gweithio ‘Wales Synod Cymru.’ Penderfynodd Synod Cymru ym mis Tachwedd 2020 mai dyma’r ffordd rydym am ei dilyn. Mae’r ddogfen yn cynnwys nifer o egwyddorion yn ymwneud â chyllid a gweinidogaeth gynaliadwy yng Nghylchdaith Cymru; cenhadaeth trwy gyfrwng y Gymraeg; bywyd y Synod newydd ac arolygiaeth o’i mewn, gyda dau Gadeirydd, un yn arwain ar faterion Cymraeg.

Bydd Wales Synod yn trafod ac yn pleidleisio ar yr un ddogfen yn eu cyfarfod tua diwedd mis Ebrill, felly fyddwn ni ddim yn gwybod beth yn union fydd y ffordd ymlaen nes gwybod canlyniad pleidlais Wales Synod ar yr un cynnig. Mae’r canlyniadau posib yn bellgyrhaeddol: er enghraifft, bywyd mwy Cymraeg i holl Eglwys Fethodistaidd Cymru, ond llai o weinidogaeth ordeiniedig yng Nghylchdaith Cymru (efallai dim ond Arolygydd, sef un gweinidog yn unig) oherwydd ein hanawsterau ariannol. Mae’n gam sy’n gofyn am ddewrder a’r parodrwydd i gymryd risg er mwyn dyfodol teyrnas Dduw yn ein plith. Gobeithio y byddwn i gyd yn barod. Ymddiriedwn yn arweiniad Duw, a arweiniodd Iesu drwy amser aros dydd Sadwrn Sanctaidd at fywyd newydd Sul y Pasg. Mae’n addo’r un bywyd newydd i’w bobl i gyd. Haleliwia, a Phasg Hapus!

Os bydd yr amgylchiadau a’r cyfyngiadau yn caniatáu, bydd Jennie yn pregethu fel a ganlyn yn y misoedd nesaf. Boed bendith Duw ar ei gwaith ac ar bawb sy’n pregethu’r Efengyl.

<u>Ebrill</u>

4 Glannau Maelor
11 Glannau Meirion a Dyfi
18 Dyffryn Clwyd
25 Môn ac Arfon

<u>Mai</u>

2 Rhosllanerchrugog a De Gwynedd
9 Ar gael
16 Dyffryn Clwyd
23 Morgannwg
30 Ar wyliau

Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 229**
**EBRILL – MAI 2021**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
5 EBRILL 2021

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr o Eglwys San Giorgio, Reggio Emilia


## Rhoddion a Thanysgrifiadau

Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd. Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth yn fawr iawn.

| | |
|---|---|
| • Mr Elwyn Ashford Jones | £20-00 |
| • Mrs Meta Beech, er cof am anwyliaid: | |
| • priod, rhieni, chwaer a brawd yng nghyfraith | £20-00 |
| • Mrs M E Roberts, Abergele | £40-00 |
| • Y Parchg J P Barnett, West Kirby | £10-00 |
| • Mrs A M Edwards, Llanfair TH | £25-00 |
| • Y Diacon G R Knighton, Y Fenni | £25-00 |
| • Dr a Mrs Telfryn Pritchard, Evesham | £40-00 |
| • Dienw | £10-00 |
| **Cyfanswm** | **£190-00** |





## #CarurAlwadHon

### 'Gwasanaethu'r Eglwys fel person lleyg'

A yw Duw yn gofyn i chi wneud rhywbeth newydd yn yr Eglwys?

Dewch i ymuno â ni wrth i ni fyfyrio ar sut mae Duw yn galw arnom bob un.

Byddwch yn cyfarfod ac yn clywed gan banel o bobl sydd wedi clywed yr alwad i wasanaethu yn eu heglwys a'u cylchdaith lleol.

Cynhelir y digwyddiadau **am ddim** hyn rhwng **10:30yb a 2yp** a byddant yn cynnwys cinio. Dewiswch un o'r digwyddiadau canlynol a gadewch i ni wybod y byddwch chi yn dod.

https://lovethiscallingwalestickets.eventbrite.co.uk

**Digwyddiad Gogledd Cymru**
Dydd Sadwrn 12 Mehefin yn:
Capel a gardd Eglwys Fethodistaidd
Hen Golwyn
Wynn Avenue
Bae Colwyn
LL29 7LN

I archebu lle, defnyddiwch y ddolen uchod neu chwiliwch am lovethiscallingwales ar Eventbrite neu cysylltwch â Chris Gray ar 01492 584376

**Digwyddiad De Cymru**
Dydd Sadwrn 10 Gorffennaf yn:
Capel a gardd Eglwys Fethodistaidd Llanisien
Melbourne Road
Llanisien
CF14 5NH

I archebu lle, defnyddiwch y ddolen uchod neu chwiliwch am lovethiscallingwales ar Eventbrite neu cysylltwch ag Amy Adams ar **07799 900492**.


Sylwch fod archebu ymlaen llaw gan ddefnyddio'r dulliau uchod yn hanfodol a bydd archebu'n cau ddydd Llun 7 Mehefin a dydd Llun 5 Gorffennaf yn ôl eu trefn. Os bydd cyfyngiadau Covid yn ein hatal rhag cyfarfod wyneb yn wyneb, byddwn yn cwrdd ar-lein. Anfonir manylion fel bo'r angen.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Pentre' bychan heb ddim mwy nag 20 o fythynnod ynddo oedd Tregynon yn 1725 sef blwyddyn geni Thomas Oliver (1725-1799). Bwthyn to gwellt oedd Rhos, man ei eni a leolid i'r gogledd o'r pentref. Newidiwyd yr enw i Rhos Cottage ac yna, fel sy'n digwydd mewn ardal ar y ffin ieithyddol, i Rose Cottage! Mae eglwys y pentref, sydd bellach wedi cau i wasanaethau rheolaidd, wedi ei henwi ar ôl Cynon, un o'r seintiau Celtaidd a ddeuai o Lydaw efallai. Fe gredir bod wyth adeilad wedi'u codi ar safle'r eglwys bresennol dros y canrifoedd. Adnewyddwyd yr eglwys bresennol yn 1892 gan gadw'r clochdy pren gwreiddiol allanol a'r trawstiau derw y tu mewn iddo. Cododd y Presbyteriaid gapel yn 1797 a'r Wesleaid yn 1853. Yn 1725 fe fyddai'n rhaid mynd i Aberriw neu'r Drenewydd i gael addysg er efallai bod person y plwyf yn gallu gweithredu fel athro os oedd y ddawn a'r awydd ganddo.

Os mai'r eglwys oedd yn bwydo'r enaid, roedd trigolion tlawd yr ardal yn dibynnu bron yn llwyr ar Ystâd Gregynog am eu bara beunyddiol. Hyd at 1914 y stad oedd perchen y rhan fwyaf o ffermydd yr ardal. Fe fyddai cryn nifer o'r pentrefwyr yn gweithio i'r stad, y dynion ar y tir a'r merched yn y tŷ mawr. Gan fod Cynddelw Brydydd Mawr (1155-1200) yn cyfeirio at Gregynog yn un o'i gerddi a Lewis Glyn Cothi (1447-86) yn sôn am Gruffydd Blayney, gellir bod yn bur sicr mai Cymraeg oedd ar dafod y perchnogion cyntaf. Yn 1609 daeth John Blayney yn fargyfreithiwr a'i ferch ef, Joyce, oedd yr un a briododd Syr Arthur Blayney, ei chyfyrder o gangen Wyddelig




y teulu. Yr olaf o'r teulu oedd Arthur Blayney (1716-95) y dywedir ei fod yn feistr tir da a theg. Etifeddwyd y stad gan wraig Charles Hanbury Tracy ac ef a fu'n gyfrifol am osod yr haen o goncrid ar yr adeilad a'i beintio yn ddu a gwyn.

Yn yr ardal hon felly y ganwyd Thomas Oliver yn 1725 a'i frawd Richard yn 1727. Bu farw ei dad Thomas yn Rhagfyr 1728 a'i fam, Penelope ym Mawrth 1729. Edrychodd teulu'r fam ar ôl Richard a bu Thomas o dan ofal ei hen ewythr o ochr ei dad hyd y bu i hwnnw farw. Perthynas i hwnnw, Thomas Tudor, Ffordun, a roddodd lety i Thomas Oliver nes iddo gyrraedd ei 18 oed. Er bod Ffordun yn bell o Dregynon, roedd Ysgol Eglwys yn Chirbury. Efallai mai yno y dysgodd Saesneg a chael gafael ar beth Lladin, Hebraeg a Groeg. Yn 18 mlwydd oed aeth yn brentis crydd. Dyma'r cyfnod y dechreuodd ymddwyn yn afreolus iawn gan ddwyn gwarth arno'i hun a'i deulu. Gadawodd Ffordun i grwydro'r wlad a byw'n afradlon. Daeth y troad mawr yn ei hanes pan glywodd George Whitfield yn pregethu ym Mryste. Testun y bregeth oedd Sechariah 3:2 – *Onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân?* Dechreuodd Thomas Oliver bregethu yn lleol ac yn 1753 cafodd ei ddewis gan John Wesley i fod yn bregethwr teithiol. Bu wrth y gwaith am 22 mlynedd mewn 15 cylchdaith cyn cael ei benodi gan John Wesley yn 1776 yn Arolygydd ei Wasg yn Llundain. Diswyddwyd ef gan Wesley yn 1789 gan fod safon ei waith yn anfoddhaol.

Er nad oedd safon ei waith wrth fodd Wesley, fe wyddom fod Oliver wedi cyhoeddi nifer o bamffledi effeithiol iawn yn amddiffyn y safbwynt Arminaidd. Roedd hefyd yn emynydd gydag o leiaf 20 o emynau dan ei enw er bod llawer ohonynt yn hirwyntog. Mae 34 pennill yn ei emyn *Come immortal King of glory* a 12 pennill yn *The God of Abraham praise,* gwreiddiol. Mae'r cyfieithiad Cymraeg yn *Caneuon Ffydd* 113. Credir i Thomas Oliver ymweld â synagog yn Llundain yn 1770 a chlywed y cantor Iddewig Rabbi Meyer Lyon yn canu'r Yigdal, sef gwaith gan Daniel Ben Judah (1400) sy'n seiliedig ar 13 o erthyglau'r ffydd Iddewig. Mae emyn Oliver yn addasiad o'r Yigdal a chafodd gopi o'r alaw, a'i haddasu o bosib a'i henwi yn Leoni. Ar y dôn yma y cenir yr emyn gwreiddiol a'r cyfieithiad Cymraeg bellach. Mae lle i gredu fod gan Thomas Oliver ddawn gerddorol gan fod y dôn *Helmsley 547* yn yr hen lyfr emynau wedi ymddangos gyntaf yng nghasgliad John Wesley *Select Hymns with Tunes annexed (1765)* o dan yr enw *Oliver's Tune*. Er bod enw Martin Maddan wedi ymddangos o dan y dôn wedyn, mae Huw Williams yn *Tonau a'u Hawduron* yn dweud mai Thomas Oliver yw'r cyfansoddwr er ei bod hi'n bosib iddo glywed tôn boblogaidd debyg iddi ar strydoedd Llundain a'i haddasu yn emyn-dôn.


Fe fyddai enw Thomas Oliver yn anghofiedig heddiw oni bai am emyn 113 *Caneuon Ffydd*. Ond dylid nodi hefyd mai ef oedd yr un a anfonwyd yn 1787 gan John Wesley i berswadio Owen Davies i fynd yn weinidog teithiol. Defnyddiodd eiriau brwnt ond effeithiol y pryd hynny ond yn 1800 roedd Owen Davies, er yn anfoddog, ar gael ynghyd â John Hughes i ddechrau'r Genhadaeth Gymraeg.

Thomas Oliver, mae'n debyg, oedd y Cymro cyntaf i gael ei alw i'r weinidogaeth deithiol gan John Wesley a bu'r ddau yn gyfeillion mynwesol hyd y diwedd. Claddwyd ef yn yr un beddrod â John Wesley yn City Road, Llundain ynghyd â phedwar gweinidog arall. O dan ei enw dywedir mai ef oedd awdur yr emyn *Duw Abraham molwch Ef,* a'r dôn *Helmsley*.

# Cofio'r diweddar Barchedig Peter Jennings

## gan y Parchg. Arglwydd Roger Roberts

Mae Capel Pawb, Llandudno yn gapel pedwar enwad: P = Presbyteriaid, A = Annibynwyr, W= Wesleaid a B = Bedyddwyr. Ar fore Sul daw cynulleidfa gymysg at ei gilydd ac un Sul, a minnau yn fy sedd ar yr ochr dde, gwelais fod gŵr dieithr y tu ôl i mi. Braf oedd cael rhywun newydd yn ein cynulleidfa. Dyma holi. "Peter Jennings ydw i," meddai. Roedd yn dysgu Cymraeg. Holi mwy: gweinidog Wesle (wel, Methodist ers 1932!). Haleliwia!



Dyna sut y deuthum i adnabod Peter Jennings, gŵr a anwyd ar gyrion Manceinion yn 1936, a aeth i Ysgol enwog Manceinion ac wedyn i Rydychen – gŵr dawnus yn amlwg. Aeth i'r weinidogaeth, priododd â Cynthia a ganwyd dau o feibion iddynt. Bu'n gweinidogaethu mewn amryw o lefydd gan gynnwys y Whitechapel Mission (sy'n agos at fy nghalon i ac sydd wedi rhoi dros 100,000 o brydau bwyd i rai digartref yn ystod y pandemig yma). Roedd gan Peter bersonoliaeth gynnes a charedig. Yn Llanidloes y bu'n gweinidogaethu cyn ymddeol i Landudno. Os ymddeol hefyd!

Ymhlith y mudiadau y bu Peter yn weithgar yn eu cylch yr oedd y Cyngor Cristnogion ac Iddewon (Council for Christians and Jews) ac am rai blynyddoedd bu'n ysgrifennydd i'r Cyngor hwnnw. Roedd ganddo ddawn arbennig i ddysgu ieithoedd – Hebraeg wrth gwrs, a chredaf fod Bengali ar y rhestr, ond roedd Cymraeg ar flaen y rhestr ar ôl symud i Landudno. Roedd yn ffyddlon i gylch trafod dysgwyr, ac yn paratoi gwasanaethau Cymraeg. Ddim cweit yn barod i bregethu yn y Gymraeg ond popeth arall. Daeth yn fugail ar gapel Preswylfa, Cyffordd Llandudno ac os oedd yn Seilo (Pawb) ar fore Sul byddai ym Mhreswylfa i oedfa gyda'r nos. Mae'r criw ffyddlon yno yn teimlo'r golled yn fawr, colli gweinidog ond mwy na dim colli ffrind.

Doedd neb yn fwy taclus wrth drefnu oedfa a'i arferiad oedd anfon y drefn ymlaen llaw i'r capel lle byddai'n pregethu y Sul canlynol. Yn sicr rhoddai oriau lawer i'r gwaith paratoi. Canfod amser i ddysgu ieithoedd, amser i astudio hanes ei ardal a Chymru. Amser i aelodau'r capeli. Braint oedd adnabod Peter Jennings ac mae bwlch aruthrol ar ei ôl.

---

## Adnoddau Newydd

**Dyma rai adnoddau sydd wedi dod o'r wasg yn ddiweddar.**

Bydd 'Siarad am Dduw Gyda'i Gilydd' yn gaffaeliad i unrhyw un sydd yn awyddus i allu mynegi ei ffydd yn well a siarad yn fwy hyderus am ei brofiad o Dduw a'r bywyd Cristnogol. Mae'n addas iawn i'w astudio mewn grŵp bychan neu fel adnodd ar gyfer Trefniant Lleol ar y Sul. Gellir ei archebu am £2.50 gan Methodist Publishing. https://www.methodistpublishing.org.uk/books/TOG0319/talking-of-god-together




Llyfryn newydd dwyieithog gan dîm Cymru Rhwydwaith Dysgu'r Eglwys Fethodistaidd yw 'Pererindod yng Nghymru'. Mae ar gael am ddim ac mae'n addas ar gyfer grŵp trafod neu at ddefnydd personol. Gellir ei lawrlwytho o walesworshipweb.blogspot.com ac mae hefyd ar gael ar ffurf llyfryn maint A5 trwy e-bostio lnwales@methodistchurch.org.uk.

Mae croeso i chi holi Delyth, ein Swyddog Dysgu ar y rhif 07799 902576 os hoffech gael copïau o'r llyfrau hyn neu os hoffech unrhyw gymorth pellach.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Ebeneser, Dolgellau*

**OEDFAON**
Rydym yn parhau i baratoi ac anfon allan wasanaeth wythnosol at bawb yn yr Ardal a phobl y tu hwnt i ffiniau'r Ardal, gyda grŵp bach yn addoli ar Zoom ar fore Sul. Felly hefyd y mae'r grŵp Astudiaeth Feiblaidd yn cyfarfod.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Irene a Frank Edge sydd wedi dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Mae Irene yn Stiward / Blaenor yn Ebeneser.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Dorothea Evans sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Hefyd, rydym yn parhau i feddwl am Wyn Meredith a Mrs Megan Abbey yn eu hanhwylder.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Hugh a Marian Humphreys, y bu farw eu merch yng nghyfraith Helen yn ddiweddar, sef gwraig Alwyn, mab Mr a Mrs Humphreys sy'n byw yng Nglan Conwy.

**DIOLCH AM Y BRECHIAD**
Rydym yn llawenhau bod nifer fawr ohonom wedi derbyn y brechiad cyntaf i'n diogelu rhag Covid-19 ac yn edrych ymlaen at ddyddiau gwell i ddod. Diolch fo i Dduw.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

### *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**ER COF ANNWYL**
Gyda thristwch mawr y clywsom ar 18 Ionawr eleni am farwolaeth y Parchedig Peter Jennings, priod annwyl Cynthia, tad a thaid arbennig. Roedd Peter wedi dysgu Cymraeg yn dda iawn a byddai'n arwain ei wasanaethau bron yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Bu'n gefn mawr i ni yma ym Mhreswylfa, gan ddod atom bob nos Sul, pwy bynnag oedd yn pregethu. Roedd yn ffyddlon bob mis yn y cyfarfodydd gweddi undebol ac wrth ei fodd yn dod i'r gwasanaethau. Bydd colled fawr ar ei ôl i ni yma. Bu ei angladd yn hollol breifat fore Mercher 3 Chwefror yn Amlosgfa Bae Colwyn. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i briod a'r teulu yn eu colled. "Da was da a ffyddlon".

Drwy gyfrwng y *Gwyliedydd* dymuna Mrs Jennings ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt drwy y llu o gardiau, blodau a rhoddion.

**DYMUNIADAU GORAU**
Cofion at holl gyfeillion Preswylfa, yn arbennig y rhai sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Cadwch yn ddiogel yn y dyddiau sydd ohoni.
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

### *Tabernacl, Llanfyllin*

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw un o aelodau hynaf y Tabernacl ar 30ain o Ionawr, sef Mrs Glenys Jones, gynt o Waenllys. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n cartrefu yng nghartref preswyl Llwyn Teg. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Aberystwyth. Daeth nifer o'i chymdogion a chyfeillion i dalu parch iddi drwy sefyll ar fin y ffordd wrth iddi fynd ar ei siwrnai olaf o Lanfyllin. Cydymdeimlwn â Jane, Ann, Trystan a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli Mam a Nain mor arbennig.

Tua'r un adeg bu farw Mr Owen Edwards, Hafryn. Bu Mr Edwards yn Ysgrifennydd y Gymdeithas Feiblaidd ac yn Drysorydd yn y Capel am lawer blwyddyn. Cynhaliwyd ei angladd yn amlosgfa Amwythig a chafwyd cyfle i dalu parch iddo yntau drwy sefyll ger y ffordd wrth iddo adael Llanfyllin. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei blant Eifion, Ifan a Lowri a'u teuluoedd. Bu Mrs Glenys Jones a Mr Owen Edwards yn athrawon yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Er na fu modd cynnal y gwasanaeth arbennig hwn ar ddechrau Mawrth eleni, roeddem yn falch bod ein rheithor yma yn Llanfyllin wedi penderfynu gwneud fideo gan ddefnyddio rhannau o'r gwasanaeth, i'w anfon allan ar wefan ardal yr Eglwys ar 5ed o Fawrth. Gobeithia'r pwyllgor sy'n trefnu'r gwasanaeth fedru cynnal y gwasanaeth yn hwyrach yn y flwyddyn os bydd hynny'n bosib.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS



## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

I gofio'n annwyl am y Parchg. Gwylfa H a Mrs Doris Morgan £25.00
a'r Parchg. Arthur Ll. a Mrs Cavell Williams £25.00 gan Gareth, Eirian a'r teulu
I gofio'n annwyl am y Parchg. Clifford a Mrs Lillian Roberts £20.00 gan Geraint a'r teulu
I gofio'n annwyl am y Parchg. William O Thomas £ 25.00 gan Ann, Nia a Bethan
Salem, Rhyd-y-foel (rhodd Nadolig) £150.00
Elizabeth a Bob Jones, Pentrecelyn £30.00

Anfonwyd cyfanswm o £275.00 yn enw Synod Cymru. Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.Marc a Margaret

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan, Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF ☎ 01978 756717 ✉ cwrteden@gmail.com

## Pendref, Dinbych

**CYFNOD CLO**
Yn y rhifyn diwethaf cyfeiriwyd at wasanaeth Adnewyddu'r Cyfamod, a gynhaliwyd ar y Sul cyntaf o Ionawr. Yn anffodus oherwydd y sefyllfa gyda Covid-19 penderfynwyd, er mwyn gofalu am ddiogelwch ein haelodau, na fyddem yn cynnal gwasanaethau yn ystod gweddill Ionawr a Chwefror.

**ER COF ANNWYL**



Trist oedd clywed am farwolaeth ein haelod hynaf, Mrs Mair Rees, yn ystod mis Chwefror. Bu Mrs Rees yn aelod ffyddlon ym Mheniel Llanelwy ac yna yma ym Mhendref dros y blynyddoedd diwethaf. Anfonwn ein cydymdeimlad at Gethin a Selwyn a'r teulu yn eu colled. Dyma deyrnged i Mair Rees a baratowyd gan Heulwen Ellis:

*Bydd coffa da am Mrs Mair Rees yn Llanelwy a'r cylch. Roedd yn wraig unigryw, dawnus a charedig. Y tri pheth pwysicaf yn ei bywyd oedd y teulu, addoliad a ffrindiau. Pleser o'r mwyaf iddi oedd dod yn hen nain. Bu hi yn gefn i'r teulu, a hwythau iddi hi yn ystod ei misoedd olaf caled a blin.*

*Capel Peniel Llanelwy oedd y fangre ysbrydol iddi am ddegawdau, a châi gweinidogion gwadd groeso a lluniaeth ar eu haelwyd ganddi hi a'i gŵr, Edgar Rees.*
*Roedd yn ymfalchïo yn hanes y capel, ac yn cofio pob achlysur arbennig. Byddai hefyd yn hoffi mynychu cyfarfodydd cydenwadol a dwyieithog. Pleser iddi oedd cael ymaelodi yng Nghapel Pendref ar ôl y gofid o gau drysau Peniel.*

*Fel dinesydd yn Llanelwy, roedd Mair Rees yn nodedig yn y gymuned leol. Bu'n diddori pobl gyda hanes bywyd yn y ddinas yn y dyddiau a fu. Roedd ei brwdfrydedd a'i hiwmor yn rhoi mwynhad i lawer. Creu a chadw cysylltiad â phobl oedd yn bwysig iddi, a hynny yn cael ei werthfawrogi gan bawb oedd yn ei hadnabod. Bydd y golled i'r teulu, y capel, a'i ffrindiau yn amlwg, ond bydd cof hapus amdani gan bawb oedd yn ei hadnabod.*



**PRIODAS RUDDEM**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elfed a Janet Evans, Tŷ Garej y Ffowndri, ar ddathlu eu priodas ruddem. Priodwyd y ddau ar Chwefror 21ain 1981 yng Nghapel Pendref gan y Parchedig Hugh Rowlands.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth y Parchedig Peter Jennings. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn falch o glywed fod y Parchedig Cledwyn Parry bellach allan o'r ysbyty. Anfonwn ein cofion cynnes ato.

Dymuniadau gorau i'n holl aelodau, gan obeithio y cawn gwrdd â chymdeithasu unwaith eto cyn bo hir.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

## Eglwys Unedig Colwyn

**COLLED**
Gyda thristwch dwfn y cofnodwn farwolaeth Mrs Eileen Davies ar Chwefror 7fed, ychydig ddyddiau cyn ei phen-blwydd yn 91. Mae marwolaeth Eileen yn golled fawr i ni fel Eglwys: roedd yn berson caredig a llawen. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bae Colwyn ar 22ain o Chwefror, o dan ofal y Parchedig Ddr Trevor Hoggard. Talwyd teyrnged i Eileen gan Mr Owen Morris. Pwysleisiodd mor annwyl oedd Eileen i ni fel aelodau yr Eglwys Unedig. Bydd ei lle yn ei chadair olwyn o flaen y sêt fawr yn edrych yn wag iawn. Diolch i Trevor ac Owen am eu geiriau addas a thyner a hefyd i Trystan am ei ddatganiad cerddorol o ddwy emyn. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll.

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Drwy Zoom y cynhaliwyd y cyfarfod eleni a'r thema oedd 'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn'. Merched Cristnogol Vanuatu oedd yn gyfrifol am baratoi y gwasanaeth. Diolch i chwiorydd Ebeneser am drefnu'r gwasanaeth ac i bawb o Eglwysi eraill y fro am eu cefnogaeth.

**DOD YN ÔL AT EIN GILYDD**
Gobeithio'n fawr y cawn ddod at ein gilydd yn y dyfodol agos. Edrychwn ymlaen at gyd-addoli yn y capel unwaith eto.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## St Paul, Aberystwyth

**GWASANAETHAU**
Oherwydd y pandemig ac oedran y rhan fwyaf ohonom yn y gynulleidfa Gymraeg ni chynhaliwyd gwasanaethau Cymraeg yn ddiweddar. Trefnwyd gwasanaethau yng Nghanolfan St Paul ar gyfer y gynulleidfa Saesneg gyda gwasanaeth dwyieithog ar Sul olaf pob mis. Bu'r gwasanaethau hyn hefyd ar gael i ni gartref ar YouTube. Gobeithir cynnal gwasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan o'r Pasg ymlaen.

**GWAELEDD**
Mae rhai o'r aelodau wedi derbyn triniaeth feddygol yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Bet Holmes, Jim Jones, Emily Lloyd Jones a Tegwen Griffiths gan obeithio y byddant i gyd yn teimlo'n well cyn bo hir.

**CARTREF NEWYDD**
Symudodd Ray Foster-Evans yn ddiweddar i Lys Hen Ysgol yn Ffordd y Gogledd. Dymunwn yn dda iddo yn ei gartref newydd.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

# Sut y byddwn yn cofio am ein hanwyliaid?

### *gan Glyn Tomos*



Mae'n anodd dirnad sut mae pobl sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y cyfnod anodd yma yn delio gyda'r sefyllfa. Mae'r broses o alaru a hiraethu am aelodau'r teulu, ffrindiau a chymdogion yn un anodd ar y gorau, ond dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r sefyllfa wedi bod ganwaith gwaeth. Mae nifer fawr wedi methu â chael y cyfle i weld a dweud ffarwel am y tro olaf wrth eu hanwyliaid, na chael bod yn eu cwmni yn yr oriau olaf yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal. Mae'n erchyll o sefyllfa ac yn un fydd yn aros am byth gyda rhai sydd wedi dioddef colledion o'r fath. Mae ein cydymdeimlad gyda rhai sydd yn canfod eu hunain yn y sefyllfaoedd hyn. Wrth ysgrifennu y golofn hon mae dros 7,000 wedi colli eu bywyd i'r pandemig yma yng Nghymru tra bod y ffigwr ar draws Prydain dros 120,000. Peidiwn ag anghofio ychwaith am y miloedd o farwolaethau sydd wedi digwydd o achosion naturiol eraill yn ystod yr un cyfnod.


Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi amddifadu teuluoedd o'r hawl i gynnal gwasanaethau angladdol arferol, rhannu baich y brofedigaeth a chofio am yr ymadawedig fel y byddent wedi dymuno ei wneud. Hyd yn oed i rai sydd wedi gallu bod yn bresennol yn yr angladd maent wedi gorfod cadw pellter ac wedi eu hamddifadu o'r cysur o allu cyffwrdd ei gilydd. Mae nifer o deuluoedd sydd wedi colli eu hanwyliaid wedi dweud yn barod mai eu bwriad yw cynnal gwasanaethau coffa pan ddaw cyfle i wneud hynny, er ar hyn o bryd, mae'n amhosib gwneud unrhyw drefniadau pendant. Ein disgwyliad ni i gyd pan fydd peryglon mwyaf y pandemig yn perthyn i'r gorffennol, yw y bydd cyfle i bawb sydd wedi eu heffeithio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd gan y feirws neu salwch eraill ddod at ein gilydd i goffáu ein hanwyliaid ac i ddiolch gerbron Duw i bawb sydd wedi gofalu amdanom a'n harwain trwy'r cyfnod anarferol hwn.

Y cwestiwn mawr wrth gwrs yw beth fydd ffurf y cofio pan ddaw y cyfle i ni wneud hynny. A fydd hi yn ymarferol bosibl i bob teulu unigol gynnal gwasanaethau coffa, neu a welwn wasanaethau coffa cymunedau cyfan. Ar y llaw arall, a welwn goffáu mwy parhaol fydd yn ein hatgoffa cynifer o fywydau mae'r feirws yma wedi eu dwyn oddi arnom. Mae'r rhain i gyd yn gwestiynau y bydd angen eu hystyried a phenderfynu arnynt yn ofalus pan fydd yr amser yn addas.

Er bod gennym gofebau ymhob pentref bron yn cofio y rhai a fu farw mewn rhyfeloedd, prin iawn ar hyd a lled y byd yw coffadwriaeth cyhoeddus parhaol i rai a gollodd eu bywydau yn sgil y ffliw Sbaenaidd yn 1918. Er bod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi lladd o gwmpas 17 miliwn o bobl, fe drawodd y ffliw Sbaenaidd un o bob tri o holl boblogaeth y blaned hon – cyfanswm o 500 miliwn, tra'n gadael rhwng 50 a 100 miliwn yn farw. Roedd y nifer a fu farw yn llawer mwy nag unrhyw ryfel.

Dywed rhai ymchwilwyr bod ein methiant i gofio'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol wedi ein gadael heb baratoi digon a dysgu yn llawn ar gyfer delio gyda'r pandemig presennol. Ar ddechrau cyfnod Covid-19 fe ddaeth yn amlwg bod ein gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol heb yr adnoddau sylfaenol digonol i alluogi gweithwyr allweddol i wneud eu gwaith yn effeithiol. Dangosodd hyn pa mor werthfawr a hanfodol yw'r gwasanaethau hyn i unrhyw gymdeithas waraidd.


Mewn gwirionedd, onid y ffordd orau i ni dalu teyrnged i'r anwyliaid a gollwyd fyddai buddsoddi o'r newydd yn y gwasanaethau iechyd a lles sydd wedi dangos dycnwch a dyfalbarhad arwrol yn wyneb y fath anawsterau dychrynllyd.



# Ydych chi'n credu yn yr Atgyfodiad?

*gan y Parchedig Pam Cram*

**Daethant allan, a ffoi oddi wrth y bedd, oherwydd yr oeddent yn crynu o arswyd. Ac ni ddywedasant ddim wrth neb, oherwydd yr oedd ofn arnynt. Marc 16:8**



Yr Efengyl yn ôl Marc: efengyl heb stori'r geni na manylion am yr atgyfodiad; efengylydd ar frys; efengyl sy'n gorffen yn sydyn. Yn y fersiynau hynaf sydd gennym o'r Efengyl, mae'n gorffen yn adnod 8 gyda'r gwragedd yn llawn ofn, wedi dychryn cymaint fel nad ydynt am ddweud gair wrth neb. Tybed wnaeth Marc orffen yr efengyl yno yn fwriadol, neu a ddigwyddodd rhywbeth i'w rwystro rhag cario ymlaen. Yn amlwg, roedd rhai yn yr eglwys gynnar yn anhapus fod yr efengyl yn dod i ben mor sydyn. Mae dau ddiweddglo 'amgen', yn adrodd am ymddangosiadau'r Iesu, er nad oes fawr o fanylion yn y naill na'r llall.

**Credu, neu beidio?**

Yr hyn sy'n amlwg yn y fersiwn hiraf, sef adnodau 9-20, yw'r pwyslais ar gredu a pheidio â chredu. Yma mae Mair Magdalen yn dweud yr hanes wrth y disgyblion a does neb yn ei chredu. Wedyn mae Iesu yn dod ac yn eu ceryddu am beidio â chredu. Ac yn olaf mae geiriau am bwysigrwydd credu, a thynged y rhai sydd heb ffydd.

Ym Mhrydain yn yr unfed ganrif ar hugain mae ffydd a diffyg ffydd yn fater o bwys. Yn hanesyddol fe gymerwyd y ffydd Gristnogol yn ganiatAol. Cafodd pawb eu bedyddio (mwy neu lai pawb beth bynnag – sydd yn ddefnyddiol iawn i'r rhai ohonom sy'n hel achau!). Ar y cyfan byddai pobl yn mynd i'r eglwys yn weddol gyson, boed fel mater o ddyletswydd neu gred neu ofergoeledd, pwy a ŵyr. Faint ohonynt oedd yn Gristnogion 'go iawn' tybed?

Y dyddiau hyn, er y byddai canran gweddol uchel yn dweud eu bod yn credu mewn Duw, lleiafrif sydd yn arfer unrhyw grefydd, ac ymhlith y rhai sy'n dweud eu bod yn Gristnogion tybed faint ohonynt sy'n credu yn yr Atgyfodiad?

**Ffydd yn hongian ar edau denau**

Cyn i ni feirniadu'r rhai sy'n methu â chredu, arhoswch am eiliad, a byddwch yn onest. Petaech chi wedi cwrdd â'r gwragedd hyn wrth iddynt ffoi oddi wrth y bedd, a fuasech chi wedi meddwl eu bod nhw'n gwbl wallgof? A fyddech chi wedi eu credu? Hyd yn oed wedi dod i gredu yn Iesu, a ydych erioed wedi amau? Efallai fod gan rai ohonom grefydd sydd wedi aros yn gadarn trwy'r amser, doed a ddelo. Ond efallai bod eraill wedi ei chael yn anodd – a'n bod hyd yn oed yn awr yn gweithio trwy amheuon.

Peidiwch â phoeni. Oherwydd yn aml wrth i ni fynd trwy'r cyfnodau llawn ofn a dryswch, fel y disgyblion yn yr hanes, rhywsut mae rhyfeddod yr atgyfodiad yn ymddangos unwaith eto fel cannwyll fach mewn ogof. Mae ffydd yn ymddangos fel petai yn hongian ar edau denau ond mae'n bosib bod y cyswllt yn gryfach na'r disgwyl.

**Yn mynd o'n blaenau i Galilea**

Yn annhebyg i'r Cristnogion cynnar rwy'n barod i dderbyn bod Marc, yr Efengylydd cyntaf, efallai wedi gorffen yn adnod 8 yn fwriadol. Ein problem ni yn yr eglwysi anghydffurfiol yw bod tuedd weithiau i neidio o Sul y Blodau i Sul y Pasg, gydag efallai jyst ychydig o sylw i Ddydd Gwener y Groglith. Mae adnod 8 yn y bennod hon yn ein gwahodd i aros gyda'r poen, ofn a gwacter am ychydig. Mae'n rhoi cyfle i ni gwblhau'r hanes ein hunain, i ni ein hunain, trwy ystyried ein perthynas ni â'r Groes a'r Iesu Atgyfodedig. Wedyn efallai y bydd mwy o ddealltwriaeth a chryfder mewnol, yn barod i ni fynd i'n Galilea ninnau a darganfod Iesu yno o'n blaen ni.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Salem, Rhyd y Foel*

**COFION**
Anfonwn ein cofion at Mr Allen Pugh wedi iddo dreulio peth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Fe ddathlodd Kathleen Williams, ein haelod hynaf, ben-blwydd arbennig yn 90 oed ar Fawrth 22ain. Mae hi wedi bod yn aelod yn Salem gydol ei hoes ac wedi bod yn arbennig o ffyddlon a selog i'r achos ar hyd y blynyddoedd. Bu yn ofalwraig gydwybodol iawn am rai blynyddoedd. Mae hi yng ngofal yr elfennau ac mae manylder a glendid y bwrdd Cymun yn dyst i'w hymroddiad i'r swydd.

Mae Kathleen yn Gymraes i'r carn – yn gwrando yn gyson ar Radio Cymru ac yn gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu a diddordeb mawr ganddi mewn materion cyfoes. Dros y blynyddoedd fe drefnodd sawl ymweliad i bobl yr ardal â'r Eisteddfod Genedlaethol ledled Cymru. Ein dymuniadau gorau i Kathleen a'n diolch o waelod calon am ei chyfraniad ymhob agwedd o weithgareddau'r capel.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE




### *Ardal Bathafarn*

**DAW DYDD**
Er i gapeli'r Ardal barhau i fod ar gau er mwyn helpu i ddiogelu aelodau a ffrindiau annwyl rhag Covid-19, diolchwn yn ddyddiol am y brechlyn a byddwn yn fythol ddiolchgar i'r gwyddonwyr medrus a fu'n gweithio'n ddyfal i'w ddatblygu. Edrychwn ymlaen at ailagor yr addoldai ar ôl i ni gael ail ddos y brechlyn. Yn y cyfamser rydym mewn cysylltiad trwy wahanol ffyrdd gyda'r aelodau a ffrindiau ac yn diolch hefyd am yr hyn a gawn trwy'r Cyfryngau.

"Daw'r dydd i hyn fynd heibio.
Mi gawn ni oll gofleidio.
O'r diwedd, byddwn eto'n rhydd,
A bydd, mi fydd ne ddawnsio."



**DATHLU**
Dymuniadau gorau i Marian Thomas, Capel Rehoboth, a Bob, Tan y Bryn, ar ddathlu penblwyddi arbennig. Pob bendith a hapusrwydd. Braf cael newyddion da yn y cyfnod anodd hwn. Llongyfarchiadau calonnog iawn i Hefin a Lois Hughes ar enedigaeth mab sef Mabon Wyn, brawd i Enid ac ŵyr arall i Rhian Hughes, gôr ŵyr i Gwyn Williams. Pob bendith arnynt fel teulu.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys ag Olwen Griffiths a'r teulu ym marwolaeth chwaer yng nghyfraith Olwen sef chwaer y diweddar Barchedig E.H. Griffiths.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion anwylaf a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Enid Edwards, Glyndyfrdwy, a gafodd driniaeth yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau hefyd i aelodau a ffrindiau gartref ac mewn cartrefi gofal. Rydym yn meddwl llawer amdanoch ac yn edrych ymlaen at gael cwrdd unwaith eto. Gobeithio y daw cyfle am baned gyda'n gilydd eto cyn bo hir!

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## *Bethel, Prestatyn*

**CYFNOD Y CLOI**
Er nad ydym wedi gallu addoli yn y Capel dros y misoedd diwethaf mae'n hyfryd gallu dweud ein bod yn parhau i addoli Duw yn ein cartrefi ac mewn gweithred. Mae'r caredigrwydd sydd wedi ei weld ymysg yr aelodau i'w gilydd mor galonogol. Diolch i bawb am y galwadau ffôn, y siopa, gwneud prydau i'n cymdogion, y cyfarfodydd a'r gwasanaethau Zoom. Cofiwch fanteisio ar yr holl gyfarfodydd Zoom os gallwch.

**ER COF ANNWYL**
**Miss Mary Robert**s – Trist iawn yw cofnodi marwolaeth ein haelod hynaf, Miss Mary Roberts yn 101 oed. Aeth yn sâl cyn y Nadolig a threuliodd ei phen-blwydd yn 101 yn yr ysbyty. Ganwyd Mary ym Mlaenau Ffestiniog, yr hynaf o bedwar o blant. Roedd ei thad yn flaenor yn y Capel. Aeth Mary i hyfforddi a gweithio fel nyrs a bydwraig a bu am flynyddoedd lawer yn 'Fetron' mewn ysbyty yn Wolverhampton. Wedi ymddeol, symudodd i Brestatyn ac roedd yn aelod ffyddlon y cawsom fwynhau ei chwmni hyd ryw ddeunaw mis yn ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu.


**Mrs Morfudd Hefin Evans** –
Gyda thristwch hefyd rhaid cofnodi marwolaeth Morfudd Hefin Evans o Monmouth Grove, Prestatyn ar Ionawr 18fed. Magwyd Morfudd yn Tan Rhiw, Ffynnongroyw, ac roedd y teulu yn aelodau yn Siloam.

Priododd â Wynne yn 1969 cyn ymgartrefu yng Ngalltmelyd. Ganwyd dwy ferch iddynt, Eleri a Siân a daeth y teulu yn aelodau yn Salem Galltmelyd. Yn 2019 cafodd Morfudd a Wynne barti mawr i ddathlu eu priodas aur ac yn ei araith dywedodd Wynne 'mi briodais em a ddaeth yn ddiamwnt'. Mor wir! Anfonwn ein cydymdeimlad at Wynne, Eleri, Siân a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Bydd colled fawr ar ei hôl ond gwerthfawrogwn y cyfle a gawsom i adnabod Morfudd – gwir foneddiges.

**Y PLANT**
Mae'r plant wedi bod yn dysgu o gartref am wythnosau bellach. Erbyn hyn mae'r plant lleiaf yn ôl yn yr ysgol ac wrth eu boddau yn cael gweld eu ffrindiau. Rhaid canmol y rhieni, a'r rhieni ar draws y gylchdaith am eu gwaith caled yn addysgu'r plant gartref. Nid yw'n hawdd gorfod gweithio o gartref eich hun a cheisio helpu eich plant i gwblhau eu gwaith ysgol. Rhaid i ni ddiolch hefyd i staff Hwb Ysgol y Llys sydd wedi gofalu am y plant y mae eu rhieni yn weithwyr allweddol. Diolch arbennig i Anti Jane, un o'n hathrawon Ysgol Sul, am ei gwaith yn gofalu am y plant yn yr Hwb.

**BANC BWYD PRESTATYN**
Rydym wedi dechrau gwneud casgliad misol i Fanc Bwyd Prestatyn. Diolch i bawb am eu rhoddion o arian neu fwyd. Casglwyd 18 bag o fwyd ym mis Chwefror i'r Banc Bwyd.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn yn dda i'r aelodau hynny sydd yn wynebu gwaeledd. Anfonwn ein cariad a'n dymuniadau gorau atoch. Mae llawer o'r aelodau yn ffonio'r cleifion yn rheolaidd am sgwrs a diolchwn yn arbennig i'n bugail y Parchedig Brian Huw Jones am ei wasanaeth wythnosol sy'n cael ei ddosbarthu i'r cleifion. Cofion arbennig i Lili (6 oed) sydd wedi bod yn treulio amser yn Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl eto. Cafodd Lili a'i theulu flwyddyn anodd y llynedd ac roeddem mor falch o'i gweld yn ôl yn ei chartref. Dymunwn iechyd gwell iddi dros y misoedd nesaf.



**TŶ CAPEL**
Mae'r gwaith atgyweirio yn parhau a'r tŷ bron yn barod i'w osod.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## *Ardal Glannau Maelor*

Mae'r cyfnod clo yn parhau i achosi problemau yn yr Ardal hon fel ym mhobman. Mae'n anodd meddwl fod y taflenni 'Addoli Adre' wedi bod yn mynd allan i aelodau a chyfeillion ers dros flwyddyn. Fel yn ystod yr Adfent, mae'r rhai sy ar y we wedi derbyn neges ddyddiol trwy gydol tymor y Grawys – "40 words for 40 days" – naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cafwyd caniatâd caredig y Parchg. Ganon Susanna Gunner o Esgobaeth Norwich i atgynhyrchu / cyfieithu ei gwaith.

Diolch am dechnoleg a ffôn yn y cyfnod hwn oherwydd un o'r anawsterau mawr yw'r anallu i ymweld â rhai sy'n wael neu mewn profedigaeth. Dros y misoedd diwethaf mae sawl aelod o'r Ardal wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty neu'n wael gartref. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn eich cofio chi a'ch teuluoedd yn ein gweddïau. Cofiwn hefyd am y rhai sydd wedi bod mewn profedigaeth. Bydded i Dduw fod yn nerth ac yn noddfa yn eich colled.

Braf yw deall fod Owain Morgan yn dod adref i Gymru, gan ei fod wedi ei benodi i swydd gyda chwmni Llew Jones yn Llanrwst. Dymunwn bob bendith i Owain a Lucy wrth iddynt symud o Swydd Rhydychen ac wrth i ddau droi yn dri yn yr Haf.

**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

## *Shiloh, Tregarth*

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys ag Einir Jones a'r teulu: roedd yn ddrwg gennym glywed am farwolaeth mam Einir. Rydych yn ein meddyliau ar adeg mor anodd.

**DYMUNIADAU GORAU**
Pob dymuniad da i Norah O'Brien a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Cofion hefyd at holl aelodau a ffrindiau Shiloh, yn enwedig y rhai nad ydynt yn mwynhau iechyd da. Edrychwn ymlaen at gynnal gwasanaethau yn y capel unwaith yn rhagor o Sul y Pasg ymlaen. Gwyliwch yr hysbysfwrdd am wybodaeth.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

# Igor Stravinsky (1882–1971) a'i 'Symffoni O Salmau'

## *gan Gareth Blainey*

Eleni yw hannercanmlwyddiant marwolaeth un o gyfansoddwyr mwyaf dylanwadol yr ugeinfed ganrif sef Igor Stravinsky. Bu farw'r gŵr o Rwsia ar 6 Ebrill 1971 ar ôl dod i amlygrwydd am y tro cyntaf gyda thri bale: 'Yr Aderyn Tân' (The Firebird, 1910), 'Petrushka' (1911) a 'Defod Y Gwanwyn' (The Rite of Spring) a achosodd derfysg pan gafodd ei berfformio am y tro cyntaf ym Mharis yn 1913. Cerddodd pobl allan o'r perfformiad oherwydd cerddoriaeth fodern Stravinsky a choreograffi Vaslav Nijinsky ar gyfer y dawnswyr.

Erbyn hyn mae 'Defod Y Gwanwyn' yn cael ei ystyried yn un o brif gampweithiau y ganrif ddiwethaf ac mae'r un peth yn wir am un arall o gyfansoddiadau Stravinsky – y 'Symffoni o Salmau' (Symphony of Psalms, 1930). Comisiynwyd y gwaith hwn i gôr a cherddorfa i ddathlu hanner canfed pen-blwydd Cerddorfa Symffoni Boston yn yr Unol Daleithiau.



Mae'r symffoni, sydd â thri symudiad, yn defnyddio adnodau o dair salm mewn Lladin. 'Gwrando fy ngweddi, O Arglwydd, a rho glust i'm cri; paid â diystyru fy nagrau' o Salm 39 yn y Beibl Cymraeg Newydd yw geiriau cyntaf y symudiad cyntaf ac mae'r ail symudiad yn dechrau gydag adnodau o Salm 40: 'Bûm yn disgwyl a disgwyl wrth yr Arglwydd, ac yna plygodd ataf a gwrando fy nghri. Cododd fi i fyny o'r pwll lleidiog, allan o'r mwd a'r baw; gosododd fy nhraed ar graig, a gwneud fy nghamau'n ddiogel.' Geiriau Salm 150 yn ei chyfanrwydd yw geiriau'r symudiad olaf, sy'n dechrau gyda'r côr yn canu 'Molwch yr Arglwydd. Molwch Dduw yn ei gysegr' ac yn gorffen gyda 'Bydded i bopeth byw foliannu'r Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.'

Rydw i'n hoff iawn o'r gwaith sydd yn fy marn i yn hynod o deimladwy a go brin fod hynny'n syndod ar ôl y profiad ysgytwol gafodd Stravinsky yn 1926, bedair blynedd cyn cyfansoddi'r symffoni. Tra oedd ar ei ffordd adref ar ôl nifer o gyngherddau galwodd yn Fenis a chyfarfu â charfan o bererinion oedd yn mynd i ddinas arall yn yr Eidal, Padua, i goffáu saithcanmlwyddiant marwolaeth Sant Anthony. Aeth gyda'r pererinion i eglwys yn Padua i weld corff y sant ac yn yr eglwys penliniodd wrth yr allor i weddïo. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach yn un o'i hunangofiannau dywedodd Stravinsky: 'Gofynnais am arwydd fod fy ngweddi wedi'i hateb. Cefais yr arwydd honno...heb os nac oni bai dyna foment fwyaf 'real' fy mywyd.'



# Wrth fynd heibio

## *gan William H. Owen*

Yn fy niogi boreol mi gymrodd amser i mi sylweddoli fod Munud i Feddwl wedi symud o'i egwyl gynnar ar BBC Radio Cymru i rai oriau yn nes at hanner dydd. Clywais awgrym fod rhai yn anfodlon gyda'r symudiad ac nad oedd y mudo yn boblogaidd gan bawb.

Er fy mod o gwmpas y lle yn rhywle does gen i ddim cof pryd yn union y dechreuodd Munud i Feddwl yn yr oriau cynnar, y fersiwn Gymraeg o Thought for the Day ar BBC Radio 4. Wnaeth o ddim dechrau yn ffurf wreiddiol Lift Up Your Hearts ar yr hen BBC Home Service tan 1939, tipyn ar ôl geni'r Gorfforaeth, gan ystyried fod honno'n dathlu ei chant oed y flwyddyn nesaf, yn Llundain beth bynnag.

Medrwn yn hawdd ddeall yr awydd i godi calonnau yn y boreau bygythiol rheiny. Mae rhai ohonom yn ddigon hen i gofio ei fod yn dal i fynd pan oeddem yn blant yn y pumdegau. Cafodd y teitl fyw tan 1965 pan y'i diorseddwyd gan y ffwrbwt Ten to Eight am bum mlynedd, nes i ryw bennaeth benderfynu fod yn rhaid cael teitl mwy dyrchafol. A Thought for the Day fu hwnnw er 1970. Ar adegau llwyddodd ambell gyfrannwr i gynhyrfu'r dyfroedd a dwyn anfri ar y BBC.

Credaf mai rhyw dro wedi hynny y dechreuodd y dynwarediad Cymraeg. Yn naturiol roedd dylanwad Radio 4 yn drwm wrth ffurfio BBC Radio Cymru ac roedd yr orsaf Lundeinig yn cynnal breichiau'r talpiau o raglenni Cymraeg cyn i bethau newid yn hwyr yn y saithdegau. Mae gennyf gof o fod yn y stiwdio un bore pan oedd yr Athro Dewi Eurig Davies wedi recordio Munud i Feddwl. Yn sydyn ar ganol darlledu'r tâp, saib, ac yna'r Athro yn dweud 'Damo, ga i fynd yn ôl frawddeg fan yna'. Roedd rhywun wedi bod yn esgeulus wrth olygu!

Bu'r 'Damo' hwnnw gan Athro Diwinyddol yn destun hwyl am flynyddoedd, a thipyn o ofal wedi hynny wrth olygu. Bellach, nid oes y fath beth â thâp ac mae pob dim bron yn fyw ar y rhaglenni boreol. Bu raid i gyfranwyr Munud i Feddwl – a drodd yn Deud ei Ddeud am gyfnod – godi'n gynnar i fynd i stiwdio i ddarllen eu sgript cyn 7.30.

Yn naturiol newidiodd y cyfranwyr o dro i dro, a'r pwyslais ar grefydd Gristnogol pan gafodd y Dyneiddwyr eu pig i mewn. Pan oeddwn yn ei glywed weithiau rhwng cwsg ac effro, rhyw deimlo yr oeddwn i nad oedd cystal graen ar bethau ag oedd flynyddoedd yn ôl – doedd y dweud ddim yn cyrraedd yr uchelfannau yn aml – fel mae dyn yn gweld pethau ysywaeth wrth heneiddio!

A dyna pam nad ydwi'n credu ei fod yn ddiwedd y byd ei golli o'r rhaglenni cynnar. Heb rai sydd â neges bwrpasol i hoelio'ch sylw gyda graen ar y dweud nid oes llawer o bwrpas iddo, pa bryd bynnag yn y dydd y bydd yn cael ei ddarlledu

# Plygain Rhithiol

## *gan y Parchedig J. Gwyndaf Richards*

Eleni digwyddodd rhywbeth unigryw yn hanes y Plygain, gan iddi ddod atom ni i'n cartrefi drwy gyfrwng rhaglenni ar S4C a'r cyfryngau cymdeithasol. Oherwydd pla Covid-19 nid oedd hi'n briodol ymgasglu ynghyd. Fel arfer, i fod yn rhan o wasanaeth Plygain mewn eglwys a chapel, rhaid fyddai presenoli ein hunain mewn man o addoliad ar adeg pan all y tywydd fod yn oer ac yn wlyb ac ar amser anodd i fynd allan sef ganol nos neu ar doriad gwawr.

Mae yna fwy o sôn am Blygeiniau y dyddiau hyn. Hen draddodiad Eglwysig ydyw sydd â'i wreiddiau yn mynd ymhell yn ôl, ac fe oroesodd y traddodiad drwy gyfnod y Diwygiad Protestannaidd. Mae tarddiad y gair Plygain (Plygien fel y cyfeirir ati yn Sir Drefaldwyn) yn yr ymadrodd Lladin *Pulli Cantio* a'r hen drefn oedd cynnal gwasanaeth Plygain ar noswyl Nadolig cyn i'r ceiliog ganu.

Fy mhrofiad cyntaf i o Blygain oedd tua canol y pumdegau (1955/56) pan oeddwn yn mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yn Llanfihangel yng Ngwynfa. Y traddodiad oedd ein bod fel plant yr ysgol yn dechrau'r blygain wedi i'r Ficer, y Parchg. Meredydd Evans arwain trwy wahodd y gynulleidfa luosog i ganu carol ac i ddilyn darlleniad pwrpasol o'r Testament Newydd a gweddi. Yna byddai'n agor y blygain drwy wahodd pwy bynnag oedd am ddod ymlaen. Nid carolau arferol Nadolig oedd y rhan helaeth ond Carolau Plygain nad oeddynt wedi eu cyhoeddi mewn unrhyw lyfr emynau ac yn aml iawn roedd y geiriau wedi eu gosod ar donau caneuon gwerin yn ogystal ag ambell dôn emyn. Roedd y partïon yn dod ymlaen yn eu tro heb neb yn llywyddu ac yna, pan fyddai'n amlwg nad oedd yna gyfraniad arall, gwahoddid y gynulleidfa i gyd-ganu carol cyn cyhoeddi ailagor y "blygien" ac erbyn hyn roedd y carolwyr yn gwybod pa drefn i ddod ymlaen ac weithiau byddai rownd ychwanegol yn digwydd. Byddai gan bob parti neu unigolyn stôr o garolau ac roedd yna ddealltwriaeth na fyddai yr un garol yn cael ei chyflwyno fwy nag unwaith ac felly roedd hi yn bwysig cael carol neu ddwy wrth law.

I gloi'r "blygien" daeth yn arferiad gwahodd y carolwyr ynghyd i gyd-ganu Carol y Swper fel y'i gelwid, sef "Cydganed dynoliaeth am ddydd gwaredigaeth, daeth trefen Rhagluniaeth i'r goleuni". Mae'r garol hon gan awdur anhysbys yn enghraifft dda o hen garol plygain. Dechreuwyd y traddodiad hwn tua dechrau'r ugeinfed ganrif gan Edward Watkin sef Clochydd Eglwys Sant Mihangel. Fel arfer fe fyddai gwahoddiad i'r carolwyr ymuno am swper yn y neuadd gyfagos ar ôl y Blygain, ond cyfeirio wrth gwrs yr oedd Carol y Swper at Swper yr Arglwydd yn yr oruwch ystafell. Mae hi'n bwysig gwneud y gwahaniaeth rhwng Carol Plygain a Charol Nadolig sydd yn tynnu ein sylw at eni Iesu Grist. Mae Carol Plygain yn cwmpasu genedigaeth ein Gwaredwr hyd y Croeshoeliad ac yn fwy pwysig yr Atgyfodiad.

Mae'r traddodiad wedi parhau am ganrifoedd mewn rhai mannau yng Nghymru, yn arbennig rhannau o Sir Fflint a Sir Drefaldwyn yn enwedig Gogledd Maldwyn a'i chyffiniau sef De Meirionnydd a Gogledd Sir Aberteifi, yn ogystal â rhannau o Sir Benfro. Yn ardal Maldwyn cyfeirir at Blygain Llanfihangel yng Ngwynfa fel y "Blygien fawr" oedd yn cloi plygeiniau'r fro ar yr ail Sul yn y flwyddyn newydd. Yn ogystal â'r Blygien yn Eglwys y Llan, yn y ganrif ddiwethaf cynhelid y gwasanaeth mewn nifer o gapeli o bob enwad. Un canolfan yn y cylch sydd yn cynnal y gwasanaeth am 6 o'r gloch ar ganiad y ceiliog yw Capel John Hughes, Pontrobert, a deallaf fod yna dair eglwys yn Sir Fflint yn cynnal Plygain yn gynnar ar fore Nadolig, sef Lloc, Cilcain a Nercwys. Yn Sir Drefaldwyn a'i chyffiniau fe gynhelir Plygain fel arfer yn Briw, Llansilin, Cefnyblodwel, Llanarmon Dyffryn Ceiriog, Llanfyllin, Y Trallwng, Llanidloes, Llanerfyl, Llanrhaeadr ym Mochnant, Hirnant, Llanerfyl, Llanfair Caereinion, Mallwyd, Penrhyncoch ac ardal Dinas Mawddwy a Llanymawddwy. Fe gafwyd y Blygain olaf yn Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel yng Ngwynfa ddechrau 2020 oherwydd fod yr Eglwys bellach wedi cau.

Mae yna adfywiad a diddordeb hefyd mewn rhannau eraill o Gymru ac mae nifer wedi ail gychwyn. Cofiaf yn fy ieuenctid Blygain yng Nghapel Sardis Llanwddyn ac roedd yna Barti Plygain o'r capel yn mynd allan i ganu. Roedd y gweinidog ar y pryd Parchg D. Glyn Lewis (Glyn o Faldwyn) yn cyfansoddi ambell i Garol i Barti Brynfedwen fel y'i gelwid. Roedd y capel bob amser yn llawn. Un oedd â chysylltiad agos â'r capel hwn oedd "Eos Wynfa", Thomas Williams (1769-1848), awdur yr emyn "O cenwch fawl i Dduw" a oedd yn cydoesi â'r emynyddes Ann Griffiths (1776-1806) ac roedd yntau wedi cyfansoddi nifer o garolau Plygain. Cyfansoddwyr eraill o'r bedwaredd ganrif a'r bymtheg a chyn hynny oedd Elis Wyn o Wyrfai (1827-1895), Edward Jones Maes-y-Plwm (1761-1836), Dafydd Ddu Eryri (1759-1822), Bardd Nantglyn (1769-1835), Ficer Pritchard (1579-1644), Eben Fardd (1802-1863), Bardd Du Môn (1807-1852), Eos Iâl (1794-1862), John Thomas, Pentrefoelas (1742-1818) a llawer un arall. Mae awdur nifer o'r carolau yma hefyd yn anhysbys.

Wrth orffen dyfynnaf adroddiad gan Ficer y Santes Fair Llwydiarth, nepell o Lanfihangel yng Ngwynfa ar Blygain a gynhaliwyd yn yr Eglwys honno ar Sul cyntaf y flwyddyn 1895 sydd yn rhoi blas ar blygeiniau'r ganrif honno: "*Cynhaliwyd y Blygain flynyddol ar y Sul cyntaf yn y flwyddyn newydd am chwech yr hwyr, ac, er fod yr hin yn anffafriol, daeth cynulleidfa fawr yn nghyd. Canwyd dros ugain o Garolau, yn mhlith ereill y rhai a ganlyn;- "O'r nefoedd daeth i lawr," "Wele ganwyd y Messiah," "Bethlehem," "Duw yn ddyn," "Y Ceidwad," "Meseiah a enir", "Fe ganodd angylion", "Baban Mair," Wele fi yn dyfod," "Henffych well i'r dydd," "Ac yr oedd yn y wlad honno," "Gogoniant yr Arglwydd," "Fel yr wyt," "Seren Bethlehem," "Clywch lais nefolaidd lu," "Deffrowch," "Deffro f'enaid," "Rhoddwn heibio delyn galar". Cymerwyd rhan yn y canu gan Thomas Watkins, Fachwen, Edward Morris, Edward Watkin, Joseph a Robert Lloyd, Selina ac Edward Jones, Mynydd Dwlan, Sarah Ann Jones, Bryngogledd, Annie Edwards, Gwen Jones, Mary Watkin, David Humphreys, Richard Jones, T.Watkins, Jnr., Evan Edwards, R Thomas, Llwydiarth Hall, a chôr y plant.*"

Felly ni fu fawr newid yn nhrefn y gwasanaeth Plygain. Gyda thechnoleg heddiw mae'r arferiad wedi ei drosglwyddo i Gymru yn ehangach. Mae'n bwysig pwysleisio mai gwasanaeth eglwysig ydyw ac nid cyngerdd neu fodd i gynnig adloniant torfol. Moli'r Iesu a ddaeth atom yn y cnawd ac a rannodd ei dosturi ymysg y rhai oedd ei angen – ac mae angen hynny heddiw yn fwy nag erioed i geisio dod i'r afael ag aflwydd y Covid-19.

# O'R LLAN

*gan y Canon Idris Thomas*

## GENI'R IESU AR Y PASG!

Rhyw bymtheng mlynedd yn ôl ar y Pasg, cyhoeddodd un archfarchnad mai dathlu GENI Iesu oedd pwrpas eu hwyau Pasg. Yn ôl pennaeth masnachu'r cwmni, y bwriad oedd sôn, a hynny yn ddidwyll, am wir ystyr y Pasg oherwydd mai ychydig iawn o drigolion Prydain a wyddai bellach am wir ystyr yr Ŵyl. Os oedd cymhelliad yr archfarchnad yn ddigon didwyll, camgymeriad anhygoel a chwbl anghywir wrth gwrs oedd honni mai pwrpas eu hwyau Pasg oedd dathlu geni'r Iesu. Wedi storm o brotest, beio camdeipio ar eu cyfrifiadur hwy eu hunain wnaeth y cwmni. Yn ôl y cwmni y gair aileni (rebirth) oedd yn y datganiad gwreiddiol ond yn y datganiad a ryddhawyd i ddwylo'r wasg a'r cyhoedd, y gair geni (birth) a ymddangosodd. Bu hyn, allwch fentro, yn fêl i un papur newydd pan gyfeiriwyd at bennaeth masnachu'r archfarchnad gyda'r pennawd bras "Easter egg on his face", gan gyfeirio hefyd yn sarcastig at y cyflog mawr a gawsai PR y cwmni. I fod yn deg, roedd yr archfarchnad yn gywir yn eu datganiad gwreiddiol sef cyfeirio at y Pasg fel aileni (rebirth) oherwydd un elfen bwysig o'r Ŵyl yw "aileni" chwi a minnau a phawb arall i fywyd newydd.

## "OS BYDD YN GOFYN AM WY" (Luc 11)



Gall pethau syml pob dydd ein cynorthwyo yn aml i ddeall a'n helpu i ystyried pethau dyfnach. Ar y Pasg gwna yr wy hyn ymhlith pethau eraill. Syml a chartrefol yw'r wy ond mae rhagor i wy na hynny. Ar yr aelwyd gartref, byddai fy mam yn cadw ieir ac roedd wrth ei bodd yn eu bwydo a'u cynnal yn ofalus. Yn ardal y garreg las yn fy mhlentyndod, pan oedd rhywun yn wael gartref byddai'r ardalwyr yn rhoi wyau fel un o'r rhoddion. Droeon dywedai fy mam fod hwn a hon yn symol a chawn fy anfon ganddi hefo hanner dwsin o wyau i'w haelwyd.

Arfer gweddol newydd yw gwneud wyau siocled ond ymhell cyn cyfnod yr Iesu, rhoddai pobl wyau i'w gilydd a hynny yn y gwanwyn – arwydd oeddent o fywyd newydd a oedd ar fin dod. I'r Rhufeiniaid, y Tsieineaid, yr Eifftiaid a'r Persiaid roedd yr wy yn symbol o'r bydysawd. Fel roedd yr wy yn agor i ryddhau bywyd newydd fe ddaeth i gynrychioli aileni'r ddaear pan ddeuai'r Gwanwyn. Credent fod gan yr wy felly bwerau creadigol. Ond gyda Christnogaeth, daeth yr wy i gynrychioli nid aileni natur ond aileni dynoliaeth drwy atgyfodiad ein Gwaredwr.

Rhaid cyfaddef fod stori yr wy diymhongar yn rhoi rhywfaint bach o ddeunydd i adlewyrchu gwirionedd y Pasg. Bydd yr Wy Pasg eleni eto yn teyrnasu o hyd ond faint o blant fydd yn gwybod pam y cânt y wledd flynyddol hon. Hwyrach y dylem ddweud wrthynt?

## GWISGO'R EGLWYS

Pan fyddwch yn darllen hyn o lith gennyf byddwn wedi ffarwelio â hirlwm y Gaeaf a bydd y Gwanwyn yn ei anterth yn y tir gyda'i arwyddion o fywyd newydd o'n cwmpas. Ar ôl prudd-der tymor hir y Garawys, mae'r naws ar Sul y Pasg ledled y byd yn ein haddoldai, yn gwbl wahanol – yn llawn lliw a blodau a chynnwys yr addoli yn orfoleddus. "Gwisgo'r Eglwys â holl harddwch natur i gyfleu hapusrwydd y Pasg" oedd geiriau un wraig arbennig yn fy mhlwyf. Gallaf fi a llawer offeiriad arall uniaethu'n llawn â phrofiad unigryw a byw iawn y Canon R. Glyndwr Williams – "Af i'r Llan ar fore'r Pasg a'r haul newydd godi. Gan hardded ei gwisg dan irddail a blodau mae'n wefr bod ynddi. Dynesaf at yr allor dan ei lliain gwyn a'i dwy gannwyll wen yn olau – tu cefn iddi seinia liliau'r Pasg eu hytgyrn yn soniarus. Y cyfan yn ffrâm prydferthwch, yn ffrâm Gwanwyn. Ni welir Crist ar groes ein hallorau – fe'i concrodd – MAE'N FYW."

# GAIR BACH

*gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



Dydd Sul, Mawrth 21 yw diwrnod y Cyfrifiad a wneir yng Nghymru a Lloegr bob deng mlynedd er mwyn cywain y wybodaeth gyfredol amdanom. O ddiddordeb arbennig i bawb sy'n ymboeni ynghylch y Gymraeg fydd yr hyn a ddengys am niferoedd y bobl sy'n ei siarad. Rhydd y Cyfrifiad gyfle hefyd i bobl ateb y cwestiwn, 'Beth yw eich crefydd?' ond bydd hawl hefyd i beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Beth bynnag a ddywed y Cyfrifiad o'i ddadansoddi am stad yr iaith, bydd gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif yn parhau. Diddorol fydd gwybod beth ddywed wrthym am grefydd. Tybed faint o gynnydd neu ostyngiad a fu ers deng mlynedd o ran y niferoedd sy'n arddel y Ffydd Gristnogol yng Nghymru? Os bydd gostyngiad – fel sy'n debygol – beth fydd ymateb yr eglwysi? A gaiff Cristnogion eu digalonni ynteu a gân' nhw eu hysbrydoli i ymdaflu i'w cenhadaeth o rannu'r Efengyl a gwneud disgyblion i'r Arglwydd Iesu Grist?

Sonnir am ddau gyfrifiad cyntaf cenedl Israel yn Llyfr Numeri (penodau 1 a 16). Cyfrif y dynion oedd yn abl i fynd i ryfel a wnaed. Roedd 603,550 yn ôl y Cyfrifiad cyntaf a 601,730 yn ôl yr ail, ddeunaw mlynedd ar hugain yn ddiweddarach. Gostyngiad bychan, ond gwelodd rhai llwythau ostyngiad sylweddol: llwyth Simeon oedd y gwaethaf, o 59,300 i 22,200. Ond gwelodd llwyth Manasse gynnydd, o 32,200 i 52,700. Gwerth y ffigurau yw'r dystiolaeth a geir trwyddynt fod Duw'n diogelu ei bobl o genhedlaeth i genhedlaeth, er nad yw pethau bob amser yr un mor llewyrchus ar bawb. Da fydd cofio, beth bynnag a ddywed y Cyfrifiad, bod yr Arglwydd yn cofio'i bobl ac yn cynnal ei waith. 'Mae'n tynnu yma i lawr, yn codi draw…' a 'dyrchafu'n gyson mae deyrnas ein Duw.'

# TECHNOLEG – AI DYNA'R DYFODOL?

*gan Elwyn A. Jones*



Llongyfarchiadau i olygyddion y Gwyliedydd ar gynhyrchu papur mor ddiddorol, darllenadwy ac mor ddeniadol a lliwgar ei ddiwyg. Mor wahanol oedd rhifynnau'r Gwyliedydd ym mhumdegau a chwedegau cynnar y ganrif ddiwethaf. Yn nodweddiadol o'u cyfnod a'r costau ar y pryd, digon llwydaidd a diflas oedd eu diwyg beth bynnag am eu cynnwys a doedd fawr o sôn am luniau o unrhyw fath. Wrth gwrs, yr hyn sy'n gyfrifol am y fath newid ydy technoleg. Bellach mae anfon erthyglau a newyddion ar-lein a lluniau lliw yn syth o ffonau symudol wedi hwyluso gwaith gohebyddion a golygyddion yn fawr a dylunwyr fel Elgan wedyn yn gwneud gwyrthiau wrth osod y cyfan mor gelfydd gyda'i gilydd.

Mae llawer o sôn heddiw am yr angen i'r eglwys genhadu llawer mwy a lledaenu'r efengyl i bob carfan o gymdeithas. Ond sut all yr eglwysi heddiw, yn eu gwendid a heb yr adnoddau priodol, feddwl am genhadu? Tybed ai technoleg ydy'r ateb?

Cofiwn fel y llwyddodd yr Eglwys Fore, ac yn enwedig yr Apostol Paul, i ledaenu'r efengyl Gristnogol drwy Ewrop a thu hwnt gan fanteisio ar y rhwydwaith gwych o ffyrdd Rhufeinig a oedd yn ymledu i bob cornel o'r ymerodraeth. Go brin y byddai'r grefydd Gristnogol wedi cyrraedd Cymru nac unrhyw wlad arall oni bai am ddefnydd Paul a'i gyfeillion o ddyfais fawr y cyfnod. A dyna chi'r Esgob William Morgan wedyn. Wedi iddo gwblhau cyfieithu'r Beibl i'r iaith Gymraeg fe sicrhawyd y byddai copi o'r Beibl newydd ymhob eglwys yng Nghymru mewn dim o amser a hynny drwy ddefnyddio technoleg ddiweddaraf y cyfnod sef y wasg argraffu. Oni bai am y defnydd a wnaeth William Morgan o'r dechnoleg honno go brin y byddai Cymru wedi dod yn wlad mor grefyddol a'r iaith Gymraeg yn dal yn fyw heddiw.

Felly, tybed ai technoleg fodern ein cyfnod ni heddiw all fod y cymorth mwyaf angenrheidiol i'n heglwysi? Oes, mae rhai eglwysi'n barod wedi manteisio ac yn gwneud defnydd da o dechnoleg ond mae rhelyw o'n heglwysi yn gyndyn dros ben i fentro. Cofiaf unwaith fynd i bregethu i gapel arbennig a chael fy nghyflwyno i Flaenor Technoleg yr eglwys a aeth ati wedyn i'm paratoi ar gyfer y pulpud. Chlywais i rioed sôn am y ffasiwn swydd cyn hynny nac wedyn chwaith! Ond yn wir, mae angen blaenor neu swyddog technoleg ar bob capel bellach!

Diffyg menter ydy un o'n gwendidau mawr fel eglwysi hwyrach ond pan ddaw hi'n fater o raid mae'n rhyfedd fel y gall pethau newid dros nos! A dyna'n union ddigwyddodd pan gawsom ein taro gan y coronafeirws a'r cyfyngiadau pur eithafol a ddilynodd. Gyda'r capeli'n gorfod cau a hynny am fisoedd lawer, fe drodd sawl gweinidog a chapel at y cyfryngau modern er mwyn cyrraedd eu haelodau ac eraill. Ac mae'r holl ymdrechion wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac ambell i weinidog wedi canfod fod ei gymwysterau o flaen y camera yn llawer rhagorach na'i gymwysterau yn y pulpud! Ac mae'n rhaid canmol y gweinidogion hynny a fentrodd allan i'r awyr agored i gyflwyno eu neges a diolch iddyn nhw am ddewis golygfeydd bendigedig yn gefndir ac weithiau yn sail i'w cyflwyniadau, yn union fel y byddai Crist ei hun yn ei wneud.

Eto pan ddaw'r coronafeirws i ben, os daw o, a ninnau'n dychwelyd i'r normalrwydd hir-ddisgwyliedig, tybed beth yn union fydd y 'normalrwydd' hwnnw? Ai dychwelyd i'r hen gapel bach i gwmni'r ychydig ffyddloniaid oedrannus i eistedd yn fud, a hwyrach yn fyddar, am awr neu fwy yng nghwmni rhyw bregethwr druan fydd yn gwneud y cyfan drosom ni? Neu a fydd cyfnod y pandemig yn sbardun i ni newid pethau o'r diwedd? Dwi'n cyfaddef fod arnom o hyd angen capel neu ganolfan i gyfarfod ac addoli ond a oes angen yr holl gapeli heddiw – pedwar neu bump mewn sawl tref a dau neu dri mewn ambell i bentref hyd yn oed? Onid gwell fyddai canoli'r gwasanaethau i un capel ymhob ardal ac addasu'r capel hwnnw ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Y gwir amdani, does dim angen pulpud na sêt fawr mewn unrhyw gapel bellach a'r system sain wedi ei berffeithio ac yn lle'r hen seddi pren caled onid gwell fyddai cael cadeiriau cyfforddus y gellid eu symud o gwmpas yn hwylus ar gyfer gwasanaethau ffurfiol, grwpiau trafod neu hyd yn oed am baned a sgwrs. Ac ymhob capel rhaid sicrhau fod yna sgrin neu fan gwyn ar un o'r waliau a phrosiector ar gyfer PowerPoint a digon o socedi trydan mewn mannau hwylus ac wrth gwrs swyddog technegol i ofalu am y cyfan. A dyna ichi joban ddelfrydol ar gyfer y to ifanc yn ein capeli a hwythau mor gyfarwydd â'r dechnoleg gyfoes. Ac i'r aelodau hynny sydd heb gyfrifiadur neu ffôn clyfar dylid sicrhau pob cymorth gan y capel – cymorth wrth brynu a chymorth ar sut i drin a defnyddio'r offer hyn. Cofiwch does neb yn rhy hen i ddeall na defnyddio cyfrifiaduron heddiw.

A dyna ichi her sydd o'n blaenau ni. Pan ddaw'r pandemig i ben a fyddwn ni'n barod i wynebu'r her neu tybed ai yn ôl yr awn ni i'r hen, hen drefn? Tybed...tybed...!



# O'r Pen Yma

## gan Angharad Tomos

Blagurodd cennin Pedr yn y bocs o flaen fy ffenest y dydd o'r blaen, ac ro'n i wedi llonni drwof. Yna, pan deimlais haul cynta'r bore, es allan i'w hedmygu. Daeth yn ddefod foreol, dwi'n dotio at y blodau, yn fwy na'r un flwyddyn flaenorol.

Wrth blannu'r bylbiau ym mis Medi, cofiaf ddyfalu sut y byddai hi arnom mewn rhyw bum neu chwe mis. Petai rhywun wedi dweud wrthyf sut aeaf oedd hi am fod, byddwn wedi digalonni. Mae'n dda na wyddom yr hyn sydd o'n blaenau. Ond mae'n Fawrth bellach, a blagurodd y blodau. Dwi'n edrych ar y patrwm cywrain a'r cynllun cymhleth ac yn rhyfeddu. Cwpled Abiah Roderick ddaw i'm cof,

> 'Ac i feddwl fod rhywrai yn dweud nad oes Duw yn bod,
> Wel, wel.'

Wrth iddi wawrio yn gynt, rydw i wedi dechrau mynd am dro i weld y wawr yn torri, a does dim sy'n rhoi mwy o obaith i mi. Pan dwi'n gadael y tŷ, mae'n gwbl dywyll ac yn deimlad digon annifyr. Yna cerddaf tuag at bentref Talysarn, ac yn raddol daw amlinell Crib Nantlle i'r golwg. Pella dwi'n cerdded, cliriach yw'r olygfa, ac erbyn cyrraedd Talysarn, mae'r Wyddfa o'm blaen yn ei holl ogoniant os yw'n ddiwrnod clir. Dwi'n edrych tuag at Gwm Silyn, ac at y tyddyn uchaf ar y mynydd, Brynllidiart, cartref y bardd Silyn, a'i nai, Mathonwy Hughes, y naill wedi ennill y goron a'r llall wedi ennill cadair mewn eisteddfodau cenedlaethol. Mae 150 o flynyddoedd wedi mynd heibio eleni ers geni Silyn, a dwi wedi bod yn adrodd un bennill o'i eiddo yn gyson drwy'r pandemig,

> 'Pan ymdaena cysgod hwyrnos,
> Dros y bryn, a'r maes a'r lli,
> Iesu'r gwir oleuni, aros
> Yn y caddug gyda ni.'

Mae'n hynod addas i'n cyfnod ni, tydi?

Ond fedra i ddim peidio credu fod dyddiau gwell i ddod, a dwi'n amau y byddaf yn rhyfeddu mwy nag erioed y gwanwyn hwn. Wedi'r fath ddioddefaint, mae pethau fel petaent yn gwella – o'r diwedd.

Dyna pam dwi am barhau i gerdded tua'r wawr bob bore, gan adrodd cwpled – eto o eiddo Silyn. Er mai gweinidog Methodist oedd o, ac nid Wesla (!), dwi wedi ail-ddweud y llinellau hyn yn gyson,

> 'Ni pherthyn inni holi am yr awr,
> Digon yw cofio cyfoeth lliwiau'r wawr.'



### *Y Gwyliwr*

*'Gobeithiaw a ddaw ydd wyf'* Sion Cent

A mi yn wyliwr yn y ddunos hell,
A'r dagrau heilltion ar fy ngrudd ddi-wên,
Daeth ataf lais o wyll canrifoedd pell,-
Llais dwfn a dieithr y gwledydd hen:

Os prysur ydyw'r oes, mewn gwaedlyd wŷn,
Yn plethu coron ddrain i ben ei Christ,
Etifedd y dyfodol ydyw dyn, -
Iôr didranc obaith yn ei ddagrau trist.

Heb gwynfan na galaru am a fu,
Trwy feithion ac ystormus oriau'r nos
Y gwyliaf nes y gwelaf ymyl rhos
Ar odreu caddug trwm y gorwel du.

Ni pherthyn imi holi am yr awr,
Digon yw cofio cyfoeth lliwiau'r wawr.

**R.Silyn Roberts**

## cartŵn

